HSC(6)-02-22 PTN 7

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
SeneddIechyd@senedd.cymru

28 Gorffennaf 2022

Annwyl Russell,

**Ymateb: Argymhellion ar gyfer y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer Safonau Cyfansoddiadol Bwyd a Labelu**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 14 Mehefin yn manylu ar farn ac argymhellion y Pwyllgor ar y fframwaith cyffredin dros dro.

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae Senedd y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon hefyd yn craffu ar y fframwaith a bydd angen inni aros i'w Pwyllgorau gwblhau'r gwaith craffu cyn y gallwn ddarparu ymateb i'ch argymhellion.

Mae'r dull hwn o ymateb i argymhellion Pwyllgor wedi'i gytuno ar sail y pedair gwlad ac mae'n cyd-fynd ag ysbryd gweithio pedair gwlad a chonsensws sy'n ymgorffori rhaglen y Fframwaith Cyffredin. Yr unig eithriad i hyn yw pan fo argymhelliad yn ymwneud â gwall ffeithiol sy'n peri risg i enw da un neu fwy o'r Llywodraethau.

Felly, byddaf yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd yr argymhellion wedi dod i law oddi wrth holl ddeddfwrfeydd y DU a phan fydd y pedair llywodraeth wedi dod i gytundeb ar y newidiadau sydd i'w gwneud i'r fframweithiau mewn ymateb i'r rhain.

Rwy'n ymrwymo i ddarparu ymateb llawn cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ond a fyddech cystal â derbyn y llythyr hwn dros dro. Yn y cyfamser, os oes materion brys yn ymwneud â pholisi yr hoffech gael gwybodaeth neu eglurhad yn eu cylch, ysgrifennwch ataf a byddaf yn hapus i fynd i'r afael â'r rhain y tu allan i'r broses graffu.

Yn gywir

**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.